Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Y Bil Lles Plant ac Ysgolion: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm 4)

Chwefror 2026

## 1. Cyflwyniad

**1.** Mae’r adroddiad hwn yn trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm 4) (“Memorandwm Rhif 4”) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion (“y Bil”).

**2.** Rydym wedi adrodd yn flaenorol ar y Memorandwm, a Memoranda Atodol dilynol 2 a 3 ym mis Medi 2025.[1] Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio’n llwyr ar Femorandwm Rhif 4.

### Y Bil

**3.** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Rhagfyr 2024. Mae wedi pasio drwy Dŷ’r Cyffredin. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**4.** Mae enw hir y Bil yn datgan y diben fel a ganlyn:

> *“A Bill to make provision about the safeguarding and welfare of children; about support for children in care or leaving care; about regulation of care workers; about regulation of establishments and agencies under Part 2 of the Care*

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Bil Lles Plant ac Ysgolion: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, 19 Medi 2025

*Standards Act 2000; about employment of children; about breakfast club provision and school uniform; about attendance of children at school; about regulation of independent educational institutions; about inspections of schools and colleges; about teacher misconduct; about Academies and teachers at Academies; repealing section 128 of the Education Act 2002; about school places and admissions; about establishing new schools; and for connected purposes.".*[2]

## Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**5.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil y DU yn gwneud darpariaeth "mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig." Rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm mewn perthynas â Bil o'r fath, a hynny dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl: [3]

- cyflwyno'r Bil sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn Nhŷ cyntaf Senedd y DU; a
- chyflwyno neu dderbyn gwelliannau i unrhyw Fil sy'n gwneud (neu a fyddai'n gwneud) darpariaeth mewn perthynas â Chymru.[4]

**6.** Gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ("yr Ysgrifennydd Cabinet") Femorandwm mewn perthynas â'r Bil hwn ar 24 Mawrth 2025.[5] Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Atodol ("Memorandwm Rhif 2") ar 28 Mai 2025.[6] Gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet Femorandwm Atodol pellach ("memorandwm Rhif 3") ar 12 Mehefin 2025.[7]

**7.** Gosodwyd Memorandwm Rhif 4 gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 16 Ionawr 2026.[8]

[2] Gwefan Senedd y DU, Biliau Seneddol, y Bil Lles Plant ac Ysgolion [fel ar 22 Ionawr 2026]
[3] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026, Rheol Sefydlog 29.1
[4] Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Ionawr 2026, Rheol Sefydlog 29.2
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mawrth 2024
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mai 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Mehefin 2025
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Lles Plant ac Ysgolion, 16 Ionawr 2026

**8.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes Femorandwm Rhif 4 at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'n pwyllgor ni, gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd o 3 Chwefror 2026.[9]

**9.** Mae paragraff 7 o Femorandwm Rhif 4 yn nodi crynodeb o'r hyn y mae'r Bil yn ei wneud yn ei gyfanrwydd.[10]

# 2. Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**10.** Cyflwynwyd gwelliannau i'r Bil ar 7 Ionawr i'w hystyried gan Dŷ'r Arglwyddi yn y Cyfnod Adrodd. Mae memorandwm Rhif 4 yn cadarnhau bod Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cytuno bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y gwelliannau a restrir ym Memorandwm Rhif 4.

## Cymal 12 – Iechyd

**11.** Mae gwelliant 65 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf Safonau Gofal 2000 ("Deddf 2000"), i ganiatáu i hysbysiadau o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 gael eu cyflwyno drwy e-bost. Byddai hyn yn cynnwys hysbysiadau sydd i'w cyflwyno gan Arolygiaeth Iechyd Cymru, yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Byddai hefyd yn cwmpasu gwasanaethau gan ysbytai a chlinigau annibynnol yng Nghymru. Nid yw gwasanaethau iechyd o'r fath wedi'u cadw yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly mae'r gwelliant yn rhoi sylw i faterion datganoledig.

## Cymal 20 – Gwasanaethau cymdeithasol

**12.** Mae gwelliannau 72 i 74 yn diwygio cymal 20 o'r Bil. Fe wnaethom ystyried y cymal hwn yn flaenorol yn ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm. Bwriad cymal 20 yw mynd i'r afael â bylchau yn y gyfraith, lle mae yna ddarpariaeth bresennol i amddiffyn plant mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol o dan drosedd eang ei chwmpas yn adran 1 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae hyn yn darparu ar gyfer y drosedd o greulondeb ac esgeulustod tuag at blant, ond yn gymwys i blant dan 16 oed yn unig, ac felly nid yw pobl ifanc 16 a 17 oed mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hamddiffyn i'r un graddau.

[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 7, 16 Ionawr 2026

Mae'r gwelliannau a gynigir gan gymal 20 o'r Bil i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 ("Deddf 2015") yn ceisio cau'r bwlch hwn i bobl ifanc 16 a 17 oed drwy wahardd cam-drin neu esgeuluso unigolion yn fwriadol gan weithwyr gofal a darparwyr gofal, mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

**13.** Mae gwelliant 72 yn darparu, at ddibenion y drosedd darparwr gofal yn adran 21 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 (fel y'i diwygiwyd gan gymal 20), bod "gofal rheoleiddiedig" yn cynnwys gofal neu gymorth a ddarperir i unrhyw blentyn yn hytrach nag ar gyfer plentyn 16 neu 17 oed yn unig, sy'n ehangu cwmpas y diogelwch. Mae gwelliannau 73 a 74 yn ganlyniadol i welliant 72.

## Cymal 26 – Cyflogaeth plant

**14.** Mae gwelliannau wedi'u cyflwyno mewn perthynas â chymal 26 sy'n ymwneud â chyflogaeth plant. Fe wnaethom ystyried cymal 26 yn flaenorol yn ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm.

**15.** Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn mynd i'r afael â newidiadau sy'n ymwneud â'r derminoleg ar gyfer offerynnau statudol sy'n deillio o'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

## Cymal 31 – Cydsyniad awdurdod lleol ar gyfer tynnu plant penodol allan o'r ysgol

**16.** Mae Cymal 31 o'r Bil yn ymdrin â chydsyniad awdurdod lleol i dynnu plant penodol o'r ysgol. Fe wnaethom ystyried cymal 31 yn flaenorol yn ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm.

**17.** Mae gwelliant 120 yn ehangu'r meini prawf i awdurdodau lleol gydsynio i dynnu plant penodol o'r ysgol i gynnwys plant sydd wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant yn ystod y 5 mlynedd blaenorol. Heb y gwelliant hwn, mae'r Bil yn cwmpasu plant sy'n destun cynllun amddiffyn plant ar adeg eu tynnu o'r ysgol.

**18.** Mae gwelliant 125 yn mewnosod darpariaeth newydd yng nghymal 31 o'r Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i weithredu cynllun peilot ar draws dim mwy na 30 y cant o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y cynllun peilot hwn yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sy'n ceisio tynnu eu plentyn o'r ysgol, gyfarfod â'r awdurdod lleol cyn i'w plentyn gael ei ddadgofrestru.

**19.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi'r canlynol o ran y gwelliannau i gymal 31:

> "… [maent] *yn ddiwygiadau rhagweithiol gan y Llywodraeth yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Diogelu Plant Surrey mewn perthynas â Sara Sharif ar 14 Tachwedd 2025. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion penodol mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Er bod yr argymhellion yn ymwneud â gweithdrefnau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn Surrey, ceir pwyntiau sy'n berthnasol i Addysg Ddewisol yn y Cartref yn fwy cyffredinol. Mae diwygiadau i ymestyn cwmpas y gofyniad am gydsyniad (Diwygiad 120) a phwerau i wneud Rheoliadau (Diwygiadau 125 a 126) mewn perthynas â pheilot ar gyfer cyfarfodydd gorfodol cyn dadgofrestru, wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion yn yr Adolygiad.*"[11]

## Cymal 32 – Cofrestru plant nad ydynt yn yr ysgol

**20.** Mae amryw o welliannau wedi'u cyflwyno mewn perthynas â chymal 32. Fe wnaethom ystyried cymal 32 yn flaenorol yn ein hadroddiad cynharach ar y Memorandwm.

**21.** Mae gwelliant 131 yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i ystyried ble mae'r plentyn yn byw a'i leoliad addysg o fewn 15 diwrnod i'r plentyn gael ei gofrestru ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol. Gall yr awdurdod lleol ofyn am gael ymweld â'r cartref adeg y cofrestriad ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol. Os gwrthodir ymweliad â'r cartref, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y gwrthodiad fel ffactor perthnasol wrth gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol (gweler isod ynghylch cymal 33).

**22.** Mae gwelliant 133 yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhiant sy'n cofrestru eu plentyn ar gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol ddarparu cyfeiriad blaenorol os ydynt wedi byw yn eu cyfeiriad presennol am lai na 12 mis. Mae gwelliant 134 yn sicrhau y bydd y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad ychwanegol lle mae'r plentyn yn byw.

**23.** Mae gwelliannau 136 a 137 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni ddarparu amcangyfrif o gyfanswm yr amser, yn hytrach na'r union faint o amser, y mae'r plentyn yn ei dreulio yn cael addysg gan ei rieni a darparwyr. Gwneir gwelliant canlyniadol hefyd i sicrhau y gellir gwneud rheoliadau o dan adran 436C(4) o

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4), y Bil Lles Plant ac Ysgolion, paragraff 20, 16 Ionawr 2026

Ddeddf Addysg 1996 i wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid cyfrifo amcangyfrifon amser o'r fath.

**24.** Mae gwelliannau 138 a 148 yn darparu i'r gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol gynnwys gwybodaeth am addysg plentyn cofrestredig a ddarperir gan bersonau heblaw am riant y plentyn. Mae'r gofyniad yn berthnasol dim ond pan fydd yr addysg yn fwy na chyfnod o amser a bennir mewn rheoliadau ac a nodir y diffiniad o gyfnod o amser rhagnodedig.

**25.** Mae gwelliant 144 yn darparu i awdurdodau lleol gynnwys gwybodaeth ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol am bob ysgol neu sefydliad y mae plentyn yn ei fynychu neu wedi ei fynychu yn y gorffennol, gan gynnwys y rhai sy'n sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r sector addysg bellach. Ar hyn o bryd mae'r Bil cyhoeddedig yn cyfyngu hyn i leoliadau addysg bellach yn unig.

**26.** Mae gwelliant 145 yn galluogi canlyniadau unrhyw ymweliadau â chartrefi neu ystyriaeth o gartref y plentyn a'i leoliadau addysg i gael eu rhagnodi fel gwybodaeth y gellir ei chynnwys yn y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol.

**27.** Mae gwelliant 150 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni roi gwybod i'w hawdurdod lleol am newidiadau i addysg y plentyn ar gais gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i rieni roi gwybod i'r awdurdod ar wahân bob tro y ceir newid. Mae gwelliant 153 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni gydymffurfio o fewn 15 diwrnod i gais yr awdurdod.

**28.** Mae gwelliannau 149 a 152 yn welliannau canlyniadol sy'n gosod y paramedrau ar gyfer ceisiadau am wybodaeth ar gyfer y cofrestrau, gan sicrhau mai dim ond yn unol â'r meini prawf penodedig ar gyfer y gofrestr y mae rhaid i rieni hysbysu, a bod rhaid i awdurdod lleol ofyn i riant ddarparu gwybodaeth am newidiadau i wybodaeth am addysg o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid yn amlach nag unwaith bob 3 mis.

**29.** Mae gwelliant 151 yn sicrhau nad oes rhaid i rieni roi gwybod i'r awdurdod lleol pan fydd eu plentyn yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

**30.** Mae gwelliant 155 yn nodi achosion lle nad yw plentyn yn gymwys i gael ei gofrestru am ei fod yn cael addysg amser llawn addas trwy gyfuniad o addysg ysgol ac addysg a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

**31.** Mae gwelliant 156 yn egluro y caiff awdurdod lleol ofyn i ddarparwr addysg gadarnhau a yw'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol i blant, ni waeth a yw'r plant hynny'n byw yn ardal yr awdurdod ai peidio.

**32.** Mae gwelliant 158 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â TGAU ar gyfer plant ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol os bydd rhiant yn gofyn am hynny.

**33.** Mae gwelliant 164 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ynghylch cymhwystra i fod ar y gofrestr Plant Nad Ydynt yn yr Ysgol fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

## Cymal 33 – Gorchmynion mynychu'r ysgol

**34.** Mae gwelliant 165 yn caniatáu i awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol pan fo plentyn wedi bod yn destun gorchymyn amddiffyn plant yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd cyn y dyddiad y bwriedir cyflwyno'r hysbysiad.

**35.** Mae gwelliant 166 yn atal hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol rhag cael ei gyflwyno pan nad yw'r plentyn bellach o oedran ysgol orfodol.

**36.** Mae gwelliant 167 yn galluogi'r awdurdod lleol i ystyried pob lleoliad lle mae'r plentyn yn cael addysg ac i ofyn am ymweliad â'i gartref pan fo'n ystyried a ddylid cyflwyno hysbysiad rhagarweiniol ar gyfer gorchymyn mynychu'r ysgol i'r rhiant.

## Cymal 35 – Canllawiau ar blant nad ydynt yn yr ysgol a gorchmynion mynychu'r ysgol

**37.** Mae gwelliant 175 yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â thynnu plant allan o'r ysgol.

## Cymal 64 – Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol

**38.** Gwelliant 244 yw'r gwelliant y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano'n flaenorol er mwyn cynnwys cymal newydd yn y Bil a fyddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â'r cymalau sy'n gymwys i Gymru.

### Y dull o graffu

**39.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 28 Ionawr. O ganlyniad i'r dyddiad cau ar gyfer adrodd, nid oedd gennym amser i wneud unrhyw waith ychwanegol ar Femorandwm Rhif 4.

**40.** Fodd bynnag, cawsom ohebiaeth gan Home Ed Cymru, y gwnaethom ei thrafod ochr yn ochr â Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 28 Ionawr.[12]

# 3. Ein barn ni

**41.** Rydym yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl welliannau a gwmpesir ym Memorandwm Rhif 4.

**42.** Rydym yn fodlon y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r holl welliannau a gwmpesir ym Memorandwm Rhif 4.

**Recommendation 1.** Dylai'r Senedd gydsynio i Femorandwm Rhif 4

[12] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 28 Ionawr 2026, Papur i'w Nodi 3.8, Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion, Gohebiaeth e-bost at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg oddi wrth Home Ed Cymru